PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETH CYFREITHOL CYMUNEDOL

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 30 Ebrill 2010
Tŷ Marland, Caerdydd

Presennol:
Tom Jones – Comisiynydd Cymru, LSC (Cadeirydd)
Rhys Evans – Llais Defnyddwyr Cymru
Fran Targett – Cyngor Ar Bopeth Cymru
Catrin Williams – CAFCASS Cymru (drwy dele-gynhadledd)
Rob Heaton-Jones – NOMS Cymru
Rob Brandon – Swyddfa Cymru

Staff y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol:
Tiana Pathmanathan – Rheolwr Polisi Sifil Cymru
Hilary Williams – Rheolwr Polisi Sifil Cymru (o 1 Mai 2010)
Paul Davies – Cyfarwyddwr Cymru
Sara Kovach-Clark – Pennaeth Polisi Sifil

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Lynne Schofield – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Graham Benfield – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Eleanor Williams – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Tim Luke - HMCS

1.	**Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chroeso** Croesawodd Tom Jones bawb i'r cyfarfod. Nodwyd y gohiriwyd y cyfarfod presennol i ddisgwyl canlyniad adolygiad Magee. Bu nifer o ymddiswyddiadau o'r Comisiwn ac roedd hefyd yn ddiwrnod olaf Tiana Pathmanathan yn y Comisiwn. Roedd Hilary Williams ar secondiad i gymryd yr awenau fel Rheolwr Polisi Sifil Cymru am chwe mis, nes cwblheir y trafodaethau ar ddyfodol yr LSC a'r Pwyllgor. Roedd Alan Davies o HMCS wedi ymddiswyddo ac yn cael ei olynu gan Tim Luke na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd Gareth Moss o SOLACE hefyd wedi ymddiswyddo. Nid oedd neb i'w olynu ar hyn o bryd ond gobeithid y ceir enw ar ôl cyfarfod SOLACE ddechrau mis Mai. Roedd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi ysgrifennu i ddweud bod toriadau ariannol wedi effeithio ar eu gallu i fynychu cyfarfodydd ond eu bod yn dal i ddymuno cymryd rhan a derbyn cofnodion y cyfarfodydd. Roedd Dr Caroline Turner o Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi symud i swydd arall ond byddai Lynne Schofield yn parhau fel aelod o'r pwyllgor a chynrychioli Llywodraeth y Cynulliad. Nodwyd fod Paul Newell wedi ymddeol o'r Comisiwn a dymunai Tom gofnodi'n ffurfiol ei ddiolch a'i gydnabyddiaeth o'i holl waith caled. Roedd y Pwyllgor yn neilltuol yn gwerthfawrogi'r ffaith iddo dreulio llawer o amser yn gweithio yng Nghymru a gobeithid fod hyn yn rhywbeth fyddai'n parhau.	

2.	**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2009** Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.	
3.	**Materion yn Codi** • Dywedodd Tom nad oedd wedi cymryd camau yn ffurfiol i wahodd cynrychiolaeth o'r Comisiwn Pobl Hŷn i'r Pwyllgor, nes bydd canlyniad adolygiad Magee yn hysbys. • Dywedodd Fran nad oedd diweddariad ar yr ymchwil a gaiff ei wneud gan Brifysgol Morgannwg, gan nad oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. • Dywedodd Paul Davies fod trafodaethau gyda rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol i ymestyn y cynllun peilot Achub Morgeisiau wedi eu hatal ar hyn o bryd. Roedd contractau yn y broses o gael eu hadnewyddu ac nid oedd adnoddau ar gyfer unrhyw waith ychwanegol wrth ymgysylltu gyda darparwyr. Dywedodd Tiana Pathmanathan iddi godi'r mater yn y Grŵp Gorchwyl Adfeddiannu Tai a gaiff ei redeg gan y Cynulliad ac roedd wedi gofyn am iddo gael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu. Roedd i fod wedi bod ar yr agenda diwethaf, ond roedd cyfarfodydd dilynol wedi eu gohirio oherwydd y tywydd. Cytunodd Hilary Williams fynd â'r mater ymlaen a sicrhau fod gan y grŵp rôl weithgar. Cadarnhaodd Fran Targett fod gan CAB a hefyd Shelter Cymru seddi ar y gweithgor ac y byddent yn cynorthwyo wrth hybu'r mater. **Gwaith - Hilary Williams.** ▪ Dywedodd Fran Targett nad oedd dim byd pellach i roi adroddiad arno ar Astudiaeth Dichonolrwydd cyd-gomisiynu Llywodraeth y Cynulliad. Bu'r cyfathrebu ar gyfer bwydo i'r astudiaeth yn gyffredinol drwy e-bost yn hytrach na chyfarfodydd ac roedd pawb yn disgwyl y canlyniad.	
4.	**Adolygiad Syr Ian Magee o Gymorth Cyfreithiol** Diolchodd Tom i aelodau'r Pwyllgor a ddaeth i gwrdd gyda Syr Ian Magee a'r rhai a ymatebodd yn unigol. Ei argymhelliad oedd y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LSC ystyried y pwyntiau a wnaed ynghylch llywodraethu a materion Cymru. Byddai'r prif argymhelliad yn ymwneud â'r LSC yn dod yn asiantaeth weithredol, os digwyddai, yn cymryd amser. Y nod oedd cyrraedd statws asiantaeth weithredol erbyn Ebrill 2011 ond roedd gwahanol ffactorau yn effeithio ar hyn. Cynllun gan y Llywodraeth Lafur oedd hyn, a gafodd gefnogaeth ollbleidiol cyn ei gyhoeddi. Dywedodd Paul Davies fod yn rhaid i'r LSC ystyried 22 argymhelliad yn deillio o'r adolygiad, gydag Asiantaeth Weithredol yn amlwg yr un yr oedd yr LSC wedi canolbwyntio arno. Cafodd rheolwr prosiect ei benodi eisoes o fewn yr LSC ynghyd ag un o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall yr hyn fedrai aros a'r hyn y byddid yn ei wneud yn ganolog. Mae trefniadau anffurfiol y LSC fel corff hyd braich wedi gweithio'n dda iawn ac roedd yn bwysig peidio colli'r holl bethau da pan ddaethai'n fwy ffurfiol. Gofynnwyd i'r holl Gyfarwyddwyr yn y LSC roi eu henwau gerbron i arwain prosiect ac roedd Paul ei hunan wedi rhoi ei enw ar gyfer y prosiect yn ymwneud â Chymru.	

Medrai gael ei arwain gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gobeithiai Paul fod â rhan amlwg. Ni chafwyd gwybodaeth eto am unrhyw benderfyniadau. Mae'r LSC eisoes wedi ysgrifennu at y bobl sy'n llunio'r Mesur yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau eu bod yn cynnwys yr elfen Gymreig. Byddai ymgynghori yn allweddol. Bydd ymrwymiad rhanddeiliaid 4-ffordd yng Nghymru. Cyfarfu Paul Davies gyda Tim Hemmings yn Swyddfa Cymru, Jim Gallagher yr arweinydd cyfansoddiadol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Carl Sargeant, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y 4ydd yn ymrwymiad rhanddeiliaid yng Nghymru gyda'r Pwyllgor yma'n elfen allweddol. Daethpwyd eisoes i gytundeb gyda Tim, Jim a'r Gweinidog am y materion sef:

- Roedd angen rhywun oedd yn deall y dargyfeiriad mewn cyfreithiau i sicrhau y derbynnid y gwahaniaethau. Byddai lleoliad y person hynny'n rhan o'r ymrwymiad.

- Gwnaed ymrwymiad agored i dîm polisi Cymru yn seiliedig yng Nghaerdydd.

- Rhaid diogelu'r iaith Gymraeg. Medrir un ai fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, medrid ystyried cynllun Cymru y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu medrid parhau i ymestyn Cynllun Iaith Gymraeg presennol y LSC. Yr argymhelliad oedd bod cynllun presennol y LSC yn cael ei ymestyn gan ei fod yn berthnasol i'r LSC, yn gadarn a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei gefnogi.

- Daethpwyd i gytundeb ynghylch ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid yng Nghymru. Byddai'r drafodaeth o amgylch p'un ai a fyddai Pwyllgor Cymru yn un statudol neu ymgynghorol. Derbyniwyd fod yn rhaid deall goblygiadau'r gyfraith a'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu polisi.

- Roedd angen lladmerydd yng Nghymru i sicrhau fod gan gymorth cyfreithiol lais ac y'i diogelid. Fel asiantaeth weithredol, ni fyddai comisiynwyr ac ymchwilir a ddylai un o aelodau anweithredol y bwrdd fod â statws cyffelyb. Pe na ddigwyddai hyn, roedd dymuniad yn parhau i gadw Cyfarwyddwr Cymru yn y LSC.

- Dywedodd Adolygiad Lyon nad oedd symud staff allan o Gymru yn broses unffordd. Roedd yn rhaid ystyried p'un ai a fedrid dod â staff o Loegr i Gymru fel rhan o drafodaeth ac asesiad cyfartal cyn gwneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cysylltu'n amlwg gyda'r posibilrwydd o gau y tîm gweithrediadau yng Nghaerdydd. Roedd Swyddfa Cymru, Llywodraeth y Cynulliad a'r Pwyllgor Materion Cymreig oll wedi dweud bod angen iddynt ystyried os gwneir penderfyniadau ar newid swyddi, fod yn rhaid i hynny gael pwysoliad cyfartal yng Nghymru ac allan o Gymru. Byddai'n rhaid cael ymgynghoriad cywir.

Dywedodd Rob Heaton-Jones ei fod yn cefnogi'r ymagwedd yn llawn o safbwynt NOMS.

Dywedodd Tom Jones ei fod yn gyfle i edrych ar y teulu cyfiawnder a chyrff eraill yng Nghymru i weld os oedd yna frand Gweinyddiaeth Gyfiawnder Cymru yn nhermau rhannu cyfleusterau, adnoddau ac ati a fyddai'n rhoi cysylltedd gwell.

Dywedodd Paul Davies fod NOMS, HMCS a'r LSC yn defnyddio bathodyn Gweinyddiaeth Cyfiawnder Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod yr wythnos honno wedi'i frandio felly ac roedd eisoes rai prosiectau ar waith yng Nghymru. Byddai cyfarfod rhwng yr LCS, NOMS a HMCS gyda Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i drafod system 'Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder'' yng Nghymru. Roedd hefyd gefnogaeth o San Steffan.

Pwysleisiodd Rob Brandon fod Swyddfa Cymru yno i gefnogi pawb i sicrhau na chaiff Cymru ei diystyru. P'un ai oedd hynny'n benderfyniad yn y Senedd neu bolisi'n cael ei lunio, roedd angen sicrhau'r gorau i Gymru. Pe codai rhywbeth, byddai angen i Swyddfa Cymru gael gwybod a byddent yn sicrhau fod y mater yn cael ei godi'n uniongyrchol gyda Gweinidogion.

Cadarnhaodd Fran Targett ei bod yn cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd. Roedd yn bwysig sicrhau fod y tîm polisi yn seiliedig yng Nghaerdydd gan na fedrai rhywun eistedd yn Llundain a bod â theimlad am beth oedd yn digwydd. Nid mater o ddeddfwriaeth yn unig oedd, ond yn fwy pwysig y gwahaniaeth yn yr ymagwedd polisi, oedd yn hollbwysig. Collir hyn os nad yw'ch pobl polisi chi'n cymysgu gyda phobl polisi cyrff eraill ac o fewn y Cynulliad. Roedd hefyd yn effeithio ar y ffordd y caiff pobl eu gwasanaethau. Dywedodd Tom Jones fod amseriad cynlluniau'n bwysig gan y medrent fod allan o sync gyda'r hyn oedd yn digwydd yng Nghymru.

Dywedodd Rhys Evans iddo fod mewn cyfarfod yn ddiweddar parthed ad-drefnu canolog cyrff defnyddwyr. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd os oes dyblygu effeithiolrwydd pan wneir penderfyniadau ymhell o lle cyflwynir y ddarpariaeth. Dyma lle medrid gweld camgymeriadau mewn dyblygu, neu bolisi nad oedd yn ffitio. Roedd yr hyn y bu'r Pwyllgor yn ei wneud wedi gweithio. Dylai cylch gorchwyl y Pwyllgor gael eu profi a dangos eu bod yn addas i'r diben.

Dywedodd Catrin Williams ei bod yn galonogol clywed y cynigion oedd yn cadw Cymru'n gadarn ar flaen meddwl y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried os na chafodd unrhyw randdeiliaid eu cynnwys. Awgrymodd Graham Benfield y dylid cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Cynghorau Cyfianwder Teulu Lleol ynghyd ag ACPO Cymru.

Awgrymodd Tom Jones gan nad oedd nifer fawr o aelodau'n medru bod yn bresennol yng nghyfarfod heddiw, y dylid rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor yn mynd yn ôl i'w sefydliadau eu hunain os oedd angen iddynt gael cymeradwyaeth, neu esbonio i'w prif swyddogion neu gydweithwyr cyn adrodd yn ôl i Paul Davies. Cytunwyd y medrai Hilary Williams goladu unrhyw adborth.

GWAITH: HW i goladu adborth.

5	**Adroddiad Blynyddol 2009/10 Pwyllgor Cymru y CLS** Adolygodd y Pwyllgor y drafft Adroddiad Blynyddol. Daethpwyd i gytundeb i newid yr adroddiad i ddangos i'r Cynllun Achub Morgeisiau gael ei ddatblygu gan Gyfarwyddwr Cymru'r LSC, cwmni cyfreithwyr lleol a Shelter Cymru. **Gweithredu – HW i ddiwygio'r Adroddiad Blynyddol.** Gyda'r newid uchod, derbyniwyd yr adroddiad yn swyddogol. Cadarnhaodd Tiana y caiff yr adroddiad ei gyfieithu a'i ddodi ar y wefan. Fe'i cylchredir hefyd i Aelodau Seneddol Cymru, Aelodau Cynulliad a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol. Gofynnir i aelodau pwyllgor hefyd i'w ddosbarthu i'w partneriaid ac eraill o fewn eu sefydliadau eu hunain.	
6	**Adroddiad Gwerthuso Pobl Ifanc** Cytunodd y Pwyllgor y bu'r digwyddiad pobl ifanc yn llwyddiannus. Diolchodd Tom Jones i aelodau'r Pwyllgor a fu'n bresennol y digwyddiad ac a gymerodd ran amlwg. Awgrymodd Tiana Pathmanathan y dylai'r adroddiad a ddrafftiwyd gan Erthygl 12 fod yn elfen ffocws ar gyfer cyfarfod darparwyr ym mis Mehefin. Roedd angen i'r Pwyllgor drafod yn ehangach yr awgrymiadau a wneir yn Erthygl 12. Roedd awgrymiadau yn yr adroddiad wedi cynnwys materion yr edrychwyd arnynt yn flaenorol gyda sefydliadau cynrychioli pobl ifanc, yn hytrach na phartneriaethau plant a phobl ifanc. Ymddangosai fod mwy o integreiddiad i'r cyrff hynny yn ffordd o gysylltu gydag ystod eang o bobl ifanc a grwpiau sy'n gweithredu ar lefel awdurdod lleol. Yr ystyriaeth bob amser fu galluogi allgymorth drwy gontractau, ond roedd hyn wedi achosi nifer o heriau yn y cylch cynnig presennol. Roedd y syniad o beilota clinigau mewn mannau lle'r oedd pobl ifanc eu hunain mewn gwirionedd yn hytrach na disgwyl iddynt ddod at gynghorwyr yn thema arall a ddaeth allan o'r diwrnod. Medrid defnyddio Facebook fel dull o hyrwyddo gwasanaethau. Roedd angen addasu deunyddiau hyrwyddo i fod yn hylaw i bobl ifanc a medrai pobl ifanc eu hunain gymryd rhan wrth eu hail-gynllunio. Roedd hyrwyddo yn y lleoedd cywir megis ar drafnidiaeth gyhoeddus a manteisio mwy ar sefydliadau lleol megis clybiau ieuenctid yn argymhelliad arall. Roedd atgyfeiriadau bob amser yn un o'r themâu allweddol a ddaeth allan o unrhyw grŵp cleientiaid ac edrychodd Erthygl 12 ar sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio i gynorthwyo gwaith partneriaeth ar draws gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn neilltuol, yn yr adroddiad a hefyd o drafodaeth gyda nifer o unigolion o fewn awdurdodau lleol, roedd diffyg dealltwriaeth am le medrai pobl ifanc gael mynediad i help. Roedd yr adroddiad yn awgrymu llinell gymorth ffôn rad ac am ddim a chytunodd y Cyngor fod hyn yn anodd i unrhyw sefydliad gwasanaeth cyhoeddus. Roedd gan bobl lai o arian ar gael ac roedd pethau'n llawer tynnach. Mater arall oedd y rhwystr sy'n wynebu person ifanc yn gorfod talu am alwad, yn neilltuol lle mae	

	defnyddio ffôn symudol fel arfer yn golygu costau galw uwch. Awgrymodd Tom Jones y dylid cael trafodaeth yn y cyfarfod nesaf gyda'r fforwm darparwyr i ystyried pwy arall y medrid ei wahodd, pwy fedrai fod â diddordeb neu allu i helpu gyda'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael. Dosbarthodd Fran Targett ddogfen i'r Pwyllgor yn dangos yr wybodaeth a gafwyd gan aelodau CAB am y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc. Roedd rhai gwasanaethau'n digwydd mewn ardaloedd cyfyngedig ac yn cael eu hariannu o amrywiaeth o ffynonellau. Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn werth chweil edrych yn fanylach ar ryw adeg ar y manylion hyn er mwyn ystyried os y medrid lledaenu peth o'r arfer da. Rhoddodd Rob Heaton-Jones adroddiad ar y rhaglen 'Locked in Locked out' sy'n canolbwyntio ar anawsterau anabledd dysgu ieuenctid a materion cyfathrebu. Roedd rhai o'r materion yn ymwneud â phobl ifanc yn mynd i'r llys oherwydd eu hanallu i gyfleu eu teimladau yn hytrach na diffyg deallusrwydd. Roedd sut y cânt ei gweld yn y llys yn dibynnu ar y modd yr oedd yr ynad yn delio gyda'u hagwedd. Cytunodd Hilary gysylltu â Rob Heaton-Jones i gael mwy o fanylion a byddai'n ei rhoi mewn cysylltiad gyda'r rhaglen **Gwaith - HW i gysylltu â Rob Heaton-Jones.** Awgrymodd Fran Targett ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn mynd yn ôl i'r gwaith a wnaed gan Mynediad Ieuenctid am bobl ifanc a mynediad, gan iddo roi canlyniadau annisgwyl. Un enghraifft o'r fath oedd nad oedd gan bobl ddiddordeb neilltuol mewn cyngor ar y we, ond eisiau cyngor wyneb i wyneb. Dywedodd Sara Kovach-Clark mai'r arwyddion oedd y byddai adolygiad ar gymorth cyfreithiol ac mai dyma'r amser i fwydo'r math yma o wybodaeth. Dywedodd Fran Targett ei bod yn bwysig deall nad oedd y Pwyllgor ond yn trafod pethau y medrid eu hariannu gan yr LSC, ond pethau oedd angen eu gwneud yn nhermau cyngor a gwybodaeth a sut yr oedd yn cysylltu gyda'i gilydd. Pan dynnodd wybodaeth ynghyd ar bethau a fu'n digwydd yng Nghymru, nid oedd dim ohono wedi'i ariannu gan y LSC. Nid oedd hynny'n ei wneud yn ddim llai gwerthfawr ac roedd yn bwysig peidio canolbwyntio'n llwyr ar y contractau. Cytunodd Rob Heaton-Jones fod hyn yn werthfawr iawn gan fod angen edrych ar gyllideb NOMS ar y cyd ag eraill i gyflenwi gwasanaethau. Gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol, roedd NOMS yn edrych ar ffyrdd o atal pobl rhag dod i'r system cyfiawnder troseddol gyda'r naill a'r llall yn rhoi adnoddau i mewn, gan y byddent yn ymarferol yn delio gyda'r un cleientiaid.	
7	**Unrhyw Fater Arall** Cadarnhaodd Tom Jones ei fod ar hyn o bryd yn dal i fod yn Gomisiynydd. Roedd angen i'r Comisiynydd feddwl os byddai'n fanteisiol cael rhywun wrth y bwrdd o bryd i'w gilydd er enghraifft, ar lefel strategol anweithredol, yn ogystal â chael Cyfarwyddwr Cymru, a gallu polisi. Nid cael rhywun o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymweld â Chaerdydd yn ysbeidiol fyddai'r ateb. Byddai angen ymgyfraniad o'r cychwyn cyntaf.	

Dywedodd Rob Heaton-Jones y bu sefyllfa debyg yn NOMS o ran y ffordd y caiff Cymru ei chynrychioli. Bu cynrychiolaeth weinidogol ar y Bwrdd Cenedlaethol Aildroseddu a gaiff ei redeg gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â chynrychiolaeth lefel swyddogol ar y Bwrdd Rhaglen Cenedlaethol.

Dywedodd Rob Brandon fod y Gweinidog yn rhan o'r Bwrdd Plismona Cenedlaethol.

Holodd Tom Jones aelodau'r Pwyllgor am yr hyn yr hoffent ei drafod yng ngweddill cyfarfodydd y Pwyllgor. Roedd y cyfarfod darparwyr eisoes wedi'i drafod a roedd pawb yn ymroddedig i hyn mewn egwyddor. Awgrymodd Fran Targett y dylid datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc fel thema a drafftio agenda ar y cyd, fel a ddigwyddodd yn y gorffennol. Awgrymwyd gohirio'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 23 Gorffennaf. **Gweithredu - FT a HW i ddrafftio agenda.**

Rhoddodd Fran Targett ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y ffigurau chwarterol diweddaraf. Roedd ymholiadau wedi cynyddu gan 13% yn gyffredinol, nid dim ond yng Nghymru. Roedd Advice UK a Shelter Cymru hefyd yn gweld cynnydd tebyg. Roedd dyled yn parhau i fod yn un o'r cynnydd mwyaf ac mae'n achos pryder fod dyled tanwydd yn codi'n barhaus. Bu hefyd gynnydd o 78% mewn ymholiadau am feilïaid preifat. Byddid yn cynnal darn o waith cyn hir yn edrych ar ddefnydd beilïaid gan lywodraeth leol. Er bod y diwydiant ariannol yn awgrymu fod y dirwasgiad drosodd, nid oedd hynny'n wir ar gyfer cleientiaid a dylid cadw hyn mewn cof. Roedd CAB yn parhau gyda'r rhaglen o gynllunio rhwydwaith, oedd yn edrych ar symud i ganolfan CAB fesul ardal Awdurdod Lleol. Roedd 2 set o uno'n mynd rhagddynt, ac un arall ar fin cychwyn. Roedd rhai Awdurdodau Lleol yn ystyried bod cyngor yn allweddol yn y cyfnod anodd hwn, ac un ai'n cynnal neu'n cynyddu ychydig ar gyllid. Roedd eraill oedd yn parhau i dorri.

Dywedodd Catrin Williams fod eu Prif Weithredwr yn ymddeol y diwrnod hwnnw ac nad oedd y trefniadau ar gyfer olynydd yn hysbys hyd yma. Bu cyfeiriad cynsail newydd yng nghyswllt cyfraith breifat a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y sefydliad. Roedd yn rhaid i'r dyletswyddau newydd gael eu cyflenwi o fewn adnoddau presennol a byddent yn achosi cryn her. Roedd lefel y galw am CAFCASS Cymru yn parhau i gynyddu'n sylweddol. Roedd cynnydd flwyddyn ar flwyddyn mewn atgyfeiriadau cyfraith breifat yn awr yn sefyll ar tua 5%, ond rhwng 01/04/09 a 31/03/10 ai gymharu â'r flwyddyn flaenoral roedd yna gynnydd sylweddol o 32%, gyda chynnydd o 59% yn Achosion Gofal S.31 dros Gymru gyfan.

Dywedodd Rhys Evans yn gyffredinol bod corff eirioli defnyddwyr a phawb yn gweithio yn y maes defnyddwyr yn cael cais i gyfiawnhau eu bodolaeth. Disgwylid aildrefnu gweddol fawr o fewn yr holl sector yr wythnos ddilynol.

Dywedodd Tom Jones fod yr LSC hefyd yn gostwng o ran maint gyda llawer o bobl eisoes wedi gadael.

	Dywedodd Sara Kovach-Clark ei bod yn bwysig cadw parhad gwasanaeth a dialog. Roedd angen cadw'r cysylltiadau a adeiladwyd nes bod y dyfodol yn glir. Roedd llawer o adnoddau ei thîm yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr fod y mesurau stiwardiaeth ariannol gywir yn eu lle a bod ymrwymiad i wneud yr arweiniad yn gliriach ar gyfer darparwyr. Awgrymwyd y dylai hyn fod ar agenda rhanddeiliaid ar gyfer yr haf. Diolchodd Tom i Tiana Pathmanathan am ei gwaith gwych fel swyddog polisi a gwarcheidwad y Pwyllgor ers ei sefydlu ac estyn y dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol. Diolchodd Fran Targett hefyd i Tiana, nid dim ond am ei gwaith yn ei swydd bresennol ond hefyd mewn swyddi blaenorol, am faint o gefnogaeth a roddodd i aelodau CAB ac eraill yn y sector darparwyr.	
8	**Diwedd y Cyfarfod** Diolchodd Tom i bawb am fynychu a chyfrannu at y cyfarfod. Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 23 Gorffennaf yng Nghaerdydd.	